Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Y Gwir Anrh Sajid Javid AS
Ysgrifennydd Cartref
2 Stryd Marsham
Llundain
SW1P 4DF

22 Ionawr 2019

**YNGHYLCH: Plismona ac Iechyd Meddwl – Codi'r Darnau**

Annwyl Ysgrifennydd Cartref

Rwyf yn ysgrifennu ynghylch yr adroddiad uchod, a groesewir gennyf i a'r Prif Gwnstabl Mark Collins, sydd hefyd yn arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar Iechyd Meddwl a Phlismona.

Fel y cydnabyddir o fewn yr adroddiad, mae'n eithriadol o anodd asesu'n llawn y galw a wneir ar wasanaeth yr heddlu gan y rheiny sy'n dioddef o afiechyd meddwl. Er yr ymddengys fod lefel sylweddol o dan-recordio, cydnabyddir ar draws y gwasanaeth fod cyfran annerbyniol o amser yr heddlu'n cael ei ddefnyddio'n cefnogi galw sy'n ymwneud ag iechyd. Mae'r Prif Gwnstabl yn fy hysbysu mai sefydliadau bwrdd iechyd lleol yw un o'r prif alwyr yn adrodd am bryderon ynghylch diogelwch a lles y cyhoedd.

Mae'n galonogol fod yr adroddiad wedi cydnabod ymdrechion pob llu yng Nghymru wrth ymgymryd â dau ymarfer "ciplun" galw 24 awr, sydd i'w hailadrodd ar lefel lleol yn ogystal ag ar lefel Cymru a Lloegr yn y flwyddyn sy'n dod. Byddaf yn edrych i'r Prif Gwnstabl i sicrhau fy mod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau sy'n codi o'r rhain.

Mae'r bartneriaeth brysbennu iechyd meddwl gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi bod yn gweithredu ers peth amser. Rwyf wedi fy sicrhau fod gwerthusiad y trefniant yn cael ei symud ymlaen ar hyn o bryd a byddaf yn edrych at Heddlu Dyfed-Powys a'r Bwrdd Iechyd i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth lawn ar ddyfodol y gwasanaeth hwn mor fuan â phosibl, cyn i gyfnod y trefniant presennol ddod i ben yn Ebrill. Rwyf o'r farn

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

fod yn rhaid i'r gwasanaeth gael dylanwad sylweddol o ran gostwng y galw ar blismona, a hefyd sicrhau bod unigolion yn derbyn y gofal iechyd priodol ac felly'n cydnabod nad y cynllun presennol efallai yw'r unig opsiwn, na'r un gorau.

Rwyf wedi fy nghalonogi fod Dyfed-Powys yn gweithio gyda gwasanaethau iechyd meddwl i drosglwyddo pecyn hyfforddi amlasiantaeth, ac yn edrych ymlaen at dderbyn diweddariadau gan Mr Collins ar effaith hyn maes o law.

Rwyf yn cloi drwy gyfeirio at drafodaethau diweddar gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y modd y mae gwasanaethau datganoledig yng Nghymru'n gweithio gyda phlismona i wella gofal mewn argyfwng iechyd meddwl presennol i'n preswylwyr mwyaf agored i niwed. Cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys yn ei Gyllideb 2018 y bydd £2 biliwn ychwanegol ar gael ar gyfer gwasanethau iechyd meddwl. Mae hyn i'w groesawu, fodd bynnag rwyf yn barchus yn annog y Swyddfa Gartref i gefnogi fy ngalwad bod cyfran o boblogaeth Cymru (a deellir i fod yn £113 miliwn), yn cael ei ganolbwyntio ar gefnogi'r heddlu i ddiwallu'r galw gynyddol y mae iechyd meddwl yn ei osod ar y gwasanaeth.

Mae adolygiad diweddar a gynhaliwyd gan ACC Jon Drake (Heddlu De Cymru), sef arweinydd Cymru ar gyfer iechyd meddwl, yn amcangyfrif y byddai tua £2,000,000 yn caniatáu i goncordat Iechyd Meddwl Cymru gyfan gael ei ddarparu ledled y wlad.

Ceir copi o'r ymateb hwn ar fy ngwefan.

Yn gywir

**Dafydd Llywelyn**
**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

Cc: AEM Wendy Williams

Prif Weinidog Mark Drakeford

Y Prif Gwnstabl Mark Collins

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.